



Adolygiad o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru

Adroddiad trosolwg

Hydref 2021

Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
Amcanion yr adolygiad.....	1
Cwmpas yr adolygiad.....	1
Y dull adolygu	2
Crynodeb o'r canfyddiadau	3
Y canfyddiadau	4
Cynllunio a datblygu rhaglenni	4
Dulliau darparu	6
Dysgu ac addysgu.....	7
Cefnogi cyflawniad y prentis.....	9
Asesu	11
Argymhellion ar gyfer y dyfodol.....	12
Cyfeiriadau.....	13
Atodiad 1 – Darparwyr arweiniol a phartneriaid	14
Atodiad 2 – Trywyddau rhaglen	15

Cyflwyniad

1 Yn ystod tymor y gwanwyn 2021, gwnaeth QAA Adolygiad o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru a ariennir drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Ar adeg yr adolygiad, mae arian peilot ar gyfer Prentisiaethau Gradd ar gael yn y meysydd canlynol sydd â blaenoriaeth: Sgiliau Digidol, Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch. Lluniwyd yr Adolygiad o Brentisiaethau Gradd i fod yn adolygiad datblygiadol sy'n canolbwyntio ar y ffordd y mae darparwyr addysg uwch yn darparu nodweddion nodedig prentisiaethau addysg uwch, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith, gan ddefnyddio'r Datganiad o Nodweddion ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau a gyhoeddir gan QAA (y cyfeirir ato fel y 'Datganiad o Nodweddion' o hyn ymlaen) fel ei bwynt cyfeirio. Gwnaethpwyd adolygiad i bob darparwr Prentisiaethau Gradd arweiniol yng Nghymru sy'n derbyn arian gan CCAUC, sef cyfanswm o wyth darparwr, ac roedd ei gwmpas yn cynnwys trefniadau partneriaeth gyda darparwyr addysg bellach (mae rhagor o fanylion i'w cael yn Atodiad 1). Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r adroddiadau am yr wyth darparwr ac yn cyflwyno crynodeb o'r ddarpariaeth a chanfyddiadau'r adolygiadau. Mae'n gwneud nifer o argymhellion i'r sector yng Nghymru ynglŷn â darparu rhaglenni Prentisiaeth Gradd yn y dyfodol. Am fod hwn yn adolygiad datblygiadol, ni chaiff adroddiadau eu cyhoeddi am ddarparwyr unigol, ac mae'r adroddiad hwn i'r sector cyfan yn crynhoi'r canfyddiadau'n ddiennw.

Amcanion yr adolygiad

2 Mae'r Adolygiad o Brentisiaethau Gradd yn broses ddatblygiadol sydd wedi ei llunio i helpu rhanddeiliaid i ddatblygu darpariaeth Prentisiaeth Gradd yng Nghymru. Yn arbennig, nod yr adolygiad yw:

- hysbysu datblygiad y ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd drwy adroddiad adolygu am ddarpariaeth y darparwr
- rhannu arferion gyda phartneriaid a chyflogwyr, a hysbysu darpariaeth prentisiaethau yn y dyfodol
- hwyluso rhannu arferion da, gwybodaeth a ddysgir a meysydd a bennir sydd angen eu datblygu ar draws y sector drwy adroddiad trosolwg
- cynyddu gwerth profiad dysgu'r prentisiaid a gwerth y prentisiaethau i gyflogwyr
- hysbysu datblygiad y ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd yng Nghymru yn y dyfodol.

Cwmpas yr adolygiad

3 Gwnaethpwyd adolygiad i bob darparwr Prentisiaethau Gradd arweiniol yng Nghymru sy'n derbyn arian gan CCAUC ar gyfer y meysydd pwnc sydd â blaenoriaeth. Roedd cwmpas yr adolygiadau am ddarparwyr unigol yn cynnwys partneriaid darparu - sef colegau addysg bellach - er mwyn ystyried pa mor effeithiol yw'r cydweithrediad a'r posibilrwydd o ddatblygu llwybrau newydd. Roedd pob adolygiad yn defnyddio trywyddau rhaglen i samplu'r ddarpariaeth, un rhaglen i bob fframwaith Prentisiaeth Gradd¹ lle bo'n berthnasol. Mewn rhai darparwyr lle mae eu darpariaeth gyfredol yn cynnwys un trywydd rhaglen ar draws yr holl fframweithiau neu un rhaglen i bob fframwaith, y rhaglenni hyn oedd yn ffurfio'r trywydd rhaglen. Os oedd darparwr yn cynnig gwahanol raglenni ar y cyd â gwahanol golegau partner, sicrhawyd bod y gwaith samplu'n cynnwys un rhaglen i bob coleg partner ac y rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r ddarpariaeth mewn gwahanol ranbarthau o Gymru. Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn Atodiad 2.

¹ Mae dau fframwaith prentisiaeth ar gyfer y meysydd sydd â blaenoriaeth ar gyfer cyllido: [Prentisiaeth Gradd mewn Sgiliau Digidol \(Cymru\)](#) a [Phrentisiaethau Gradd mewn Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch \(Cymru\)](#).

4 Roedd yr adolygiad yn cynnwys ymgysylltiadau â chyflogwyr yn y gweithle ar sail y trywyddau rhaglen a ddewiswyd, i asesu pa mor effeithiol y gweithredir y prosesau sefydliadol ar lefel leol ac ar draws y sefydliad cyfan. Roedd nifer o fecanweithiau ar waith i ystyried sylwadau a phrofiadau'r prentisiaid drwy ymgysylltu â'r prentisiaid yn unigol ac ar y cyd, lle bo'n bosibl. Edrychodd yr adolygwyr ar y ffordd y mae'r iaith Gymraeg wedi derbyn ystyriaeth yn narpariaeth y rhaglenni prentisiaeth ac ystyriwyd hefyd gyfraniad y Prentisiaethau Gradd i hyrwyddo mynediad, cydraddoldeb a chyfle cyfartal.

Y dull adolygu

5 Mae disgrifiad llawn o'r dull adolygu yn y [Llawlyfr ar gyfer Adolygiad o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru](#). Yn sgil y cyfyngiadau COVID-19, gweithredwyd yr adolygiad yn gyfan gwbl ar-lein.

6 Canolbwyntiodd yr adolygiad ar y meysydd allweddol yng nghynllun, strwythur a darpariaeth y Prentisiaethau Gradd sydd wedi eu disgrifio yn y [Datganiad o Nodweddion ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau](#). Ystyriodd yr adolygiad sut y cefnogir nodweddion arbennig Prentisiaethau Gradd drwy'r meysydd allweddol hyn. Mae'r llawlyfr adolygiad wedi crynhoi'r prif ystyriaethau ar gyfer y pum maes hyn (tudalennau 5 i 8) er budd y darparwyr a'r adolygwyr.

7 Am ei fod yn adolygiad datblygiadol, nid yw'r timau adolygu wedi rhoi beirniadaeth gyffredinol am safonau ac/neu ansawdd darpariaeth y darparwr. Yn hytrach, defnyddiwyd yr adolygiadau i bennu arferion da a meysydd sydd angen eu datblygu er mwyn gwella a chyfoethogi'r dulliau o gynllunio, strwythuro a darparu'r ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd. Diffiniwyd arfer da fel agwedd o'r rheolaeth ar y ddarpariaeth sy'n gwneud cyfraniad arbennig o gadarnhaol i brofiad y prentisiaid. Y meysydd sydd angen eu datblygu yw'r prosesau neu'r arferion a fyddai, os cânt eu gwella neu eu haddasu, yn cryfhau ac yn gwella'r ffordd y mae'r darparwr yn darparu nodweddion arbennig ei ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd.

8 Dyma oedd elfennau allweddol y broses adolygu:

- hwylusydd a benodwyd gan y darparwr arweiniol oedd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y trefniadau ar gyfer yr adolygiad
- y cyfleoedd i'r prentisiaid gyfrannu i'r broses drwy brif gynrychiolydd prentisiaid a chyflwyniad prentisiaid, neu gael eu cynrychioli gan gynrychiolwyr myfyrwyr (er enghraifft, swyddogion undeb y myfyrwyr)
- hunan-ddadansoddiad a sail tystiolaeth a baratoir gan y darparwr arweiniol i asesu ei berfformiad
- trywyddau rhaglen i samplu darpariaeth fel sail ar gyfer yr ymgysylltiadau â chyflogwyr a phrentisiaid yn y gweithle
- tîm adolygu o ddau adolygwr a ddewisir ar sail eu profiad a'u gwybodaeth am brentisiaethau uwch a dysgu seiliedig ar waith
- y cyfle i gyflogwyr unigol a'u prentisiaid gyfrannu i'r broses drwy gwblhau holiadur cyn yr adolygiad
- hyblygrwydd o ran hyd yr ymweliadau adolygu i gymryd i ystyriaeth faint a chymhlethdod y ddarpariaeth, math a nifer y cyflogwyr, a nifer y prentisiaid a gyflogir, yn ogystal â chaniatáu hyblygrwydd wrth amserlennu cyfarfodydd adolygu er mwyn ystyried argaeledd y staff, y cyflogwyr a'r prentisiaid
- cyfarfodydd gyda phartneriaid cydweithredol ym maes addysg bellach yn rhan o'r ymweliad adolygu
- adroddiad i'r darparwr, gyda chyfle iddo roi sylwadau am ei gywirdeb ffeithiol.

9 Yn ystod mis Awst a hanner cyntaf mis Medi 2020, ymgynghorodd QAA ar fersiwn drafft o'r llawlyfr adolygiad, a chyhoeddodd y fersiwn terfynol ar 16 Hydref. Cynhaliwyd sesiwn briffio i ddarparwyr ar 2 Tachwedd. Cynhaliwyd yr ymweliadau adolygu rhwng misoedd Mawrth a Mai 2021. Cyhoeddwyd adnoddau'r sesiwn briffio, gan gynnwys cwestiynau a'u hatebion, ar [wefan QAA](#).

Crynodeb o'r canfyddiadau

10 Mae prif ganfyddiadau'r adolygiad wedi eu crynhoi yn yr adran yma, ac mae'r canfyddiadau'n cael eu trafod yn fanylach yn yr adrannau a ganlyn.

11 Ceir sylwadau am y lefel o ymgysylltu â chyflogwyr wrth gynllunio a gweithredu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith, ac wrth ganiatáu hyblygrwydd, ac mae'r sylwadau hyn, a geir yn eang ar draws y darparwyr, yn cyfeirio at yr ymgysylltiad hwn fel nodwedd gadarnhaol o Brentisiaethau Gradd. Yn ogystal, ystyriwyd bod y defnydd a wneir gan y darparwyr o banelau cyswllt â diwydiant yn y broses o gynllunio a datblygu Prentisiaethau Gradd yn nodwedd o arfer da.

12 Siaradodd y cyflogwyr a'r prentisiaid mewn ffordd gadarnhaol am eu profiadau o ddarparwyr oedd yn ymatebol ac yn hyblyg ac a weithredodd yn gyflym i sicrhau parhad y rhaglen brentisiaeth ac i symud y ddarpariaeth i'r we yn sgil y pandemig COVID-19.

13 Roedd pawb yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y darparwyr wedi penodi tiwtoriaid cyswllt allweddol gyda chyflogwyr, prentisiaid a cholegau partner. Mae tystiolaeth bellach i'w gweld o hyn yn y ffaith bod gan bob darparwr gytundeb tair ochrog rhwng y cyflogwyr, y brifysgol a'r prentisiaid.

14 Un o brif fanteision y rhaglenni Prentisiaeth Gradd yn ôl y cyflogwyr sy'n gweithio gyda'r rhan fwyaf o'r darparwyr, yw'r gwerth ychwanegol y mae prentisiaid yn ei gynnig i gyflogwyr drwy ddatblygiad a darpariaeth prosiectau seiliedig ar waith. Ychwanegodd y rhan fwyaf o'r cyflogwyr y ffaith bod y myfyrwyr ar raglenni prentisiaeth yn helpu i symud prosiectau arloesol newydd yn eu blaenau ac yn cefnogi gwaith y cyflogwr o gynllunio'r gweithlu drwy lenwi unrhyw fylchau rhagweladwy mewn sgiliau i ddatblygu'r busnes ar gyfer y dyfodol.

15 Am fod Prentisiaethau Gradd wedi eu hintegreiddio yn y rhan fwyaf o fframweithiau sicrhau ansawdd trosfwaol y darparwyr, maent yn gwneud yn siŵr bod unrhyw bryderon sydd gan ddarparwyr neu brentisiaid yn cael eu codi ac yn derbyn ystyriaeth ffurfiol yn rhan o gylchoedd monitro blynyddol.

16 Yn y mwyafrif mawr o'r darparwyr, rhoddodd y prentisiaid a'r cyflogwyr sylwadau cadarnhaol am y dulliau o astudio eu rhaglenni a hyblygrwydd eu darparwyr i ateb eu hanghenion.

17 Er eu bod yn cydnabod bod gan y cyflogwyr y prif gyfrifoldeb am ddewis eu prentisiaid, mae'r darparwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad. Cydnabu'r holl ddarparwyr bod angen gwneud rhagor i ddenu myfyrwyr o gefndiroedd mwy amrywiol i astudio ar raglenni Prentisiaeth Gradd, ac mae nifer fawr o ddarparwyr wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid i dynnu sylw at y mater hwn.

18 Mae angen i rai darparwyr adolygu eu mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr ar wahanol agweddau o'r prosesau o gynllunio a gweithredu'r rhaglenni prentisiaeth. Yn arbennig, mae angen i nifer o ddarparwyr sefydlu sianelau ffurfiol i gyfathrebu'n rheolaidd â chyflogwyr a phrentisiaid ar bob agwedd o gynnydd academiaidd y prentis. Mae adolygiadau cynnydd yn un o ofynion y Datganiad o Nodweddion, ac mae angen eu gweithredu'n gyson.

19 Yn ogystal, mewn nifer fechan o ddarparwyr, mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn o ddatblygu sianelau ffurfiol i gyfathrebu'n rheolaidd â cholegau partner, cyflogwyr a phrentisiaid, er mwyn gallu delio gydag unrhyw faterion wrth iddyn nhw godi. Dywedodd nifer o gyflogwyr ar draws amrediad o ddarparwyr bod lle i wella'r cyfathrebu a chyfeiriwyd at sefyllfaoedd lle dibynnir ar un unigolyn yn unig o fewn y darparwr i weithredu fel y sianel unigol i drafod yr holl faterion sy'n ymwneud â Phrentisiaethau Gradd. Roedd nifer o'r darparwyr yn derbyn bod angen gwneud rhagor i ffurfioli'r systemau a phrosesau cyfathrebu a gweithredu ar gyfer Prentisiaethau Gradd, ar y cyd â'r colegau partner a'r cyflogwyr. Cydnabu'r darparwyr hefyd fod angen asesiadau ar sail gwaith go iawn a bod angen cynnwys cyflogwyr yn y broses o'u datblygu.

20 Canfuwyd bod angen i nifer o'r darparwyr wneud rhagor i sicrhau bod barn y prentisiaid yn derbyn ystyriaeth drwy fecanweithiau adborth ffurfiol y coleg partner neu drwy eu systemau a'u prosesau eu hunain ar gyfer gwerthuso modiwlau. Yn ogystal, canfuwyd bod angen i'r prentisiaid yng ngholegau partner y darparwr gael eu hymsefydlu'n fwy effeithiol fel bod modd iddynt ddod yn gyfarwydd â'r adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt gan y darparwr arweiniol.

21 Roedd angen i nifer o ddarparwyr fynd i'r afael â'r ffordd y maen nhw'n ymgysylltu'n ffurfiol â chyflogwyr yn rhan o'u prosesau o sicrhau ansawdd Prentisiaethau Gradd, ac yn arbennig y mater o sicrhau bod cyflogwyr yn cael gwybod am y materion sy'n dod i'r amlwg mewn adroddiadau arholwyr allanol, a'r ffordd y mae'r darparwr yn ymdrin â nhw.

Y canfyddiadau

22 Mae'r adrannau a ganlyn yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad ymhob un o'r pum maes allweddol. Canfu'r timau adolygu gyfanswm o 19 nodwedd o arfer da ar draws yr wyth adolygiad. Er bod arferion da i'w cael ymhob un o'r meysydd allweddol, canfuwyd cyfanswm o wyth nodwedd o arfer da mewn dysgu ac addysgu sy'n awgrymu bod y maes hwn yn un o gryfderau arbennig y sector. Mewn dau adolygiad, cyfrannodd nifer o feysydd allweddol at esiamplau o arfer da ehangach a mwy integredig; ond, at ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r arferion da hyn wedi eu nodi o dan y maes allweddol sy'n fwyaf perthnasol. O ran y meysydd sydd angen eu datblygu, y canfuwyd 20 ohonynt i gyd, mae'r rhain i'w cael ar draws y pum maes allweddol, ond mae chwech ohonynt yn dod o dan y pennawd 'Cefnogi cyflawniad y prentis'.

Cynllunio a datblygu rhaglenni

23 Yn rhan o'r adolygiadau, gwerthuswyd a oes rhaglenni wedi eu datblygu a'u cynllunio i ddarparu nodweddion diffiniol ac arbennig y brentisiaeth addysg uwch ac i ba raddau y maent wedi eu cynllunio i wneud hynny. Mae canfyddiadau'r adroddiadau adolygu o dan y pennawd hwn wedi eu crynhoi isod, ac maent yn ymwneud â'r meysydd a ganlyn: cynllun y rhaglenni; y ffordd y cyfeirir at God Ansawdd Addysg Uwch y DU, y Fframweithiau Cymwysterau, a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*; y gofynion o ran y Gymraeg; cynllun y ddarpariaeth ddysgu yn y gwaith ac i ffordd o'r gwaith; ymgysylltiad â chyflogwyr; ymgysylltiad â chyrrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio; llwybrau cynnydd; a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.

24 Canfu'r adolygiad bod aliniad i'w gael ar draws yr holl ddarparwyr gyda'r pwyntiau cyfeirio allweddol ar gyfer ansawdd, megis Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU, Fframwaith Ansawdd yr UE, a'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru a ddatblygwyd gan CCAUC. Mae pob darparwr yn defnyddio fframweithiau ansawdd sefydledig eu sefydliadau eu hunain i gynllunio a datblygu rhaglenni Prentisiaeth Gradd. Pan oedd yn ofynnol ar gyfer datblygu rhaglenni, gweithiodd y darparwyr â chyrrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrrff PSRB), gan fapio'r rhaglenni yn erbyn gofynion proffesiynol ac, mewn rhai achosion, sicrhau cymeradwyaeth gan gyrrff PSRB. Mewn un darparwr, roedd yr ystyriaeth a roddwyd yn y llawlyfr

ansawdd i'r gofynion wrth ddatblygu cymhwyster prentisiaeth newydd yn **nodwedd o arfer da** oherwydd roedd yn helpu i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau'r panelau dilysu. Mewn esiampl arall o **arfer da**, defnyddiwyd y gwaith o fapio nodweddion a safonau prentisiaeth i feysydd astudio i gefnogi cyflawniad y prentisiaid ac olrhain a monitro cyflawniad drwy gynlluniau dysgu. Pan oedd yn cyd-fynd â gweithrediad y ddarpariaeth academaidd, roedd rhai darparwyr wedi cymryd rhan weithredol mewn datblygu safonau prentisiaeth.

25 Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr wedi bodloni gofynion cynllunio llawn y Brentisiaeth Gradd ac elfennau hanfodol y Datganiad o Nodweddion. Roedd angen i un o'r darparwyr ddarparu rhagor o dystiolaeth i ddangos ymgysylltiad er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y Datganiad o Nodweddion yn llawn, ac ystyriwyd hyn yn **faes sydd angen ei ddatblygu**.

26 Mae pob darparwr, yn eu prosesau ar gyfer datblygu rhaglenni Prentisiaeth Gradd, yn alinio â *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* a'r gofynion o ran y Gymraeg sy'n ofynnol i gael arian gan CCAUC.² Mae pob darparwr wedi cynnig cyfle i'w prentisiaid gyflwyno gwaith, ac iddo gael ei farcio, yn y Gymraeg.

27 Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr wedi cynnwys cyflogwyr yn llawn yn y broses o gynllunio a datblygu rhaglenni, gan gynnwys mewn perthynas ag integreiddio'r dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, i raddau amrywiol. Roedd angen i un o'r darparwyr ddatblygu ei strategaeth ymhellach ar gyfer cynnwys cyflogwyr mewn prosesau o gynllunio a datblygu rhaglenni, ac ystyriwyd hyn yn **faes sydd angen ei ddatblygu**. Mae nifer o ddarparwyr yn defnyddio strwythurau sy'n bodoli'n barod, megis grwpiau cyswllt â diwydiant, i ymgysylltu â chyflogwyr. Lle bo'n briodol, mae pob darparwr yn cefnogi cyflogwyr wrth ddedol prentisiaid drwy weithio gyda rhwydweithiau sgiliau sy'n bodoli'n barod yn yr ardal a'r rhanbarth.

28 Ar draws yr holl ddarparwyr, mae'r prentisiaid yn gyffredinol fodlon â'r cydbwysedd rhwng dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Cadarnhaodd prentisiaid ymhob darparwr bod yr holl raglenni wedi cysylltu'r dysgu mewn ystafell ddosbarth neu labordy'n effeithiol â'r dysgu yn y gweithle. Mewn un o'r adolygiadau, nodwyd yr effaith gadarnhaol a gafodd y prosiectau briff byw a wneir gan y prentisiaid yn y gweithle a'r gwerth y maen nhw'n ei ychwanegu i'r cwmni, ac ystyriwyd hyn yn **nodwedd o arfer da**.

29 Mae'r darparwyr yn defnyddio arholwyr allanol ar gyfer eu rhaglenni. Un maes y gellid ei gryfhau yw sefyllfaoedd lle mae arholwyr allanol yn ymwneud â mwy nag un rhaglen brentisiaeth a ph'un a ydyn nhw'n gallu gwneud sylwadau penodol mewn perthynas â'r dull o ddarparu'r brentisiaeth yn eu hadroddiadau. Mae nifer o ddarparwyr yn rhoi gwybodaeth i gyflogwyr a mentoriaid yn y gweithle am gyd-destun a chynnydd academaidd y prentisiaid, ond, mewn rhai darparwyr, ystyriwyd yr angen i gryfhau'r trefnau hyn yn **faes sydd angen ei ddatblygu**.

30 Mae'r holl ddarparwyr arweiniol sy'n brifysgolion, ac sy'n gweithio mewn partneriaeth â darparwyr sy'n golegau yn eu hardaloedd, yn darparu eu rhaglenni Prentisiaeth Gradd yn effeithiol. Mae rhai o'r partneriaethau hyn wedi bod yn weithredol ers amser. Canfuwyd dwy esiampl o **arfer da** yn y maes hwn: y ffordd y mae cryfder y bartneriaeth gydweithredol yn cyfrannu at brosesau o gynllunio, datblygu a darparu rhaglenni, a'r cyfraniad a wna'r bartneriaeth at ddatblygu rhaglen Brentisiaeth Gradd sy'n ateb y galw am sgiliau gan y cyflogwyr yn yr ardal.

² Cylchlythyr CCAUC W20/05HE Prentisiaethau Gradd yng Nghymru a Chynigion Cyllido 2020-2021

Dulliau darparu

31 Yn rhan o'r adolygiadau, gwerthuswyd yr ystod o ffactorau sy'n hysbysu'r ffordd y mae rhaglenni Prentisiaeth Gradd yn cael eu darparu er mwyn cefnogi nodweddion arbennig y cymhwyster. Gallai ystod o ffactorau ddylanwadu ar y dull o ddarparu'r rhaglen, megis y dull addysgol, gofynion y cyflogwr a'r prentis, y brentisiaeth unigol, gofynion y cyrff PSRB a'r gofynion o ran addasrwydd i arfer. Mae canfyddiadau'r adroddiadau adolygu o dan y pennawd hwn wedi eu crynhoi isod, ac maent yn ymwneud â'r meysydd a ganlyn: sut mae cyfleoedd dysgu i ffwrdd o'r gwaith yn alinio â'r dysgu yn y gweithle; yr ymgysylltiad â chyflogwyr; trefnau i sicrhau amrywiaeth a chynhwysiad; trefnau i sicrhau ansawdd y dysgu.

32 Canfu'r adolygiad fod pob darparwr, yn ystod y broses o ddatblygu rhaglenni, yn ystyried barn cyflogwyr ynglŷn â pha ddulliau darparu a pha leoliadau darparu fyddai orau ganddynt, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i brentisiaid a chyflogwyr. Mae darparwyr yn sicrhau bod y dulliau darparu'n integreiddio dysgu i ffwrdd o'r gwaith gyda gweithgareddau gweithio o ddydd i ddydd i sicrhau bod y prentisiaid yn gallu gwneud y defnydd gorau o'u cyfleoedd dysgu. Mewn un esiampl, mae'r darparwr arweiniol wedi defnyddio panel cyswllt â diwydiant yn effeithiol i ddatblygu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith sy'n greadigol, ac ystyriwyd hyn yn **nodwedd o arfer da** yn yr adolygiad.

33 Dywedodd yr holl gyflogwyr a phrentisiaid eu bod yn fodlon gyda'r cydbwysedd rhwng dysgu i ffwrdd o'r gwaith a gweithgareddau gweithio o ddydd i ddydd. Mewn un o'r darparwyr, gwelwyd **arferion da** lle cafodd dysgu academaidd a dysgu seiliedig ar waith eu hintegreiddio mewn ffordd gadarnhaol i ddatblygu asesiadau seiliedig ar waith. Cadarnhaodd nifer fawr o gyflogwyr fod prentisiaid yn hynod o werthfawr i'r gweithle oherwydd eu cyfranogaeth a darpariaeth eu prosiectau seiliedig ar waith sydd wedi eu hintegreiddio yn y Brentisiaeth Gradd.

34 Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr wedi integreiddio'r rhaglenni Prentisiaeth Gradd yn eu prosesau a'u systemau trosfwaol ar gyfer asesu ansawdd. Yn rhan o'r ystod o systemau sicrhau ansawdd sydd ar waith, rhoddir adroddiadau drwy strwythurau pwyllgorau a mecanweithiau ffurfiol y sefydliadau, defnyddir adroddiadau monitro blynyddol, adroddiadau arholwyr allanol, a datblygir cynlluniau gweithredu, er mwyn ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg. Ymhob un o'r darparwyr, roedd cytundebau tair ochrog rhwng y brifysgol, y cyflogwr a'r prentis oedd yn nodi cyfrifoldebau a disgwyliadau bob parti.

35 Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr yn darparu cyfleoedd ffurfiol i'w prentisiaid roi adborth am eu profiadau drwy gwblhau ffurflenni gwerthuso modiwl. Mae gan bob darparwr strwythurau effeithiol ar gyfer cysylltu â chyflogwyr a cholegau partner i sicrhau bod unrhyw broblemau yn ymwneud â gweithredu Prentisiaethau Gradd o ddydd i ddydd yn cael eu datrys mewn da bryd. Mewn tri darparwr, roedd y cyflogwyr eisiau gweld gwell cyfathrebiad am y gefnogaeth a ddarperir i'r prentisiaid a'u cynnydd academaidd, a gwell ymgysylltiad yn y broses o ddatblygu'r rhaglen, ac ystyriwyd hyn yn **faes sydd angen ei ddatblygu** ar gyfer un o'r darparwyr.

36 Mae gan y darparwyr amrywiaeth o diwtoriaid arweiniol/cyswllt sy'n gweithio gyda chyflogwyr ac yn cefnogi prentisiaid. Gwelwyd arferion da mewn un achos lle'r oedd y darparwr wedi penodi arweinydd prentisiaethau sy'n meincodi'r gwaith yn erbyn yr arferion gorau yn y sector ac sy'n ymgysylltu'n weithredol â chyflogwyr.

37 Mae'r darparwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad; er enghraifft, trwy drafod y materion hyn yn rhan o'r broses ddilysu, a thrwy ddefnyddio datganiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae recriwtio prentisiaid i Brentisiaethau Gradd yn rhan o fentrau ehangu mynediad y darparwyr i ddenu myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol, ac i ddarparu mynediad iddyn nhw. Cydnabu'r holl ddarparwyr bod angen gwneud rhagor o waith i ddenu dysgwyr o gefndiroedd mwy amrywiol i gofrestru ar brentisiaethau. Roedd nifer o ddarparwyr wrthi'n gweithio gyda chyflogwyr ac asiantaethau eraill yn yr ardal neu'r rhanbarth i hysbysebu cyfleoedd prentisiaeth er mwyn annog rhagor o ferched i wneud prentisiaethau sy'n gofyn am sgiliau STEM.

Dysgu ac addysgu

38 Yn rhan o'r adolygiadau, gwerthuswyd yr ystod o ddulliau dysgu ac addysgu a ddefnyddir er mwyn ateb anghenion prentisiaid ar raglenni Prentisiaeth Gradd a'u gweithleoedd unigol. Mae canfyddiadau'r adroddiadau adolygu o dan y pennawd hwn wedi eu crynhoi isod, ac maent yn ymwneud â'r meysydd a ganlyn: ystod briodol o ddulliau dysgu ac addysgu; y ffordd y mae'r cyflogwr yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio'r broses asesu a/neu gytuno ar ei manylion; cytundeb eglur am gyfrifoldebau bob parti; neilltuo amser priodol i hwyluso cyfleoedd dysgu o safon uchel; y ffordd y mae trefniadau ar gyfer dysgu hunangyfeiriedig yn cael eu cefnogi drwy fecanweithiau megis cytundebau dysgu; integreiddiad dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith; y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg sydd ar gael i'r myfyrwyr; a threfnau i gofnodi cynnydd y dysgwyr.

39 Canfu'r adolygiad bod strategaethau dysgu ac addysgu priodol yn cael eu defnyddio ar draws yr holl ddarpariaeth, gyda chymysgedd o ddulliau, megis darlithoedd, sesiynau tiwtora, gweithdai, ymarferion, prosiectau ac astudiaethau achos. Ym manylebau rhaglenni a disgrifwyr modiwlau'r darparwyr, disgrifiwyd yn fanwl beth yw'r wybodaeth a'r sgiliau sydd angen eu datblygu, a'r dulliau dysgu, addysgu ac asesu a ddefnyddir. Hefyd, rhoddir caniatâd i'r prentisiaid ddefnyddio rhith-amgylchedd dysgu'r darparwr.

40 Yn y mwyafrif o achosion, cynlluniwyd y rhaglenni i fod yn hyblyg er mwyn sicrhau bod y dulliau dysgu ac addysgu'n ateb anghenion y prentis a'r cyflogwr. Mae'r dull hwn sydd wedi ei deilwra'n arbennig yn galluogi i brentisiaid ddysgu a datblygu'r sgiliau y mae eu cyflogwr yn gofyn amdanynt yn benodol. Canfuwyd esiamplau rhagorol i ddangos fel y mae'r dull hwn yn gweithio'n effeithiol, a gwelwyd **arferion da** mewn tri darparwr mewn perthynas â hyn: Cytunwyd ar gynnwys y modiwlau a'r dulliau asesu rhwng y darparwr a'r cyflogwyr i alluogi i'r prentisiaid weithio mewn ffug-amgylchedd sy'n adlewyrchu'r byd gwaith go iawn er mwyn datblygu prosiect ynddo; a chafodd prosiectau eu pennu a'u datblygu mewn cydweithrediad uniongyrchol â chyflogwyr a phrentisiaid, a derbyniodd y prentisiaid gefnogaeth yn sefyllfaoedd unigol eu gweithleoedd i alluogi iddynt gyflawni eu canlyniadau dysgu.

41 Mae pob darparwr yn ateb y gofyniad i ddarparu dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, yn unol ag amodau CCAUC ar gyfer cyllido Prentisiaethau Gradd. Cynlluniwyd rhaglenni i gynnwys o leiaf 20% o ddysgu i ffwrdd o'r gwaith, fel yr awgrymwyd yn y Datganiad o Nodweddion, lle mae darparwyr yn gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau bod y patrwm darparu'n ateb eu hanghenion. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygedd mewn dulliau darparu - diwrnod llawn ar safle'r darparwr mewn rhai achosion, a hanner diwrnod a sesiwn gyda'r nos mewn achosion eraill. Mae addasiadau eraill a gynigir gan gyflogwyr yn amrywio: mae un o'r cyflogwyr yn addasu ei fodol llwyth gwaith, gan roi rhywfaint o amser i ffwrdd o'r gwaith i'w brentisiaid i'w galluogi i ganolbwyntio ar waith prifysgol; tra bo cyflogwr arall yn caniatáu amser i'w brentisiaid gysgodi eu cydweithwyr er mwyn eu galluogi i ddysgu ganddynt yn y gweithle, ochr yn ochr â'u gwaith eu hunain. Mewn trydydd, lle nodwyd hyn fel **nodwedd o arfer da**, mae hanner diwrnod yr wythnos wedi ei glustnodi i gynnal cyfarfodydd dal i fyny rhwng y prentisiaid a goruchwyliwr modiwl eu prosiect. Mae'r corff proffesiynol perthnasol yn ystyried bod hyn yn arwain at brosiectau o safon uchel i unigolion a grwpiau ac yn un o brif gryfderau'r rhaglen. Mewn darparwr arall, lle ystyriwyd hyn yn **nodwedd o arfer da**, mae deunyddiau ar-lein ar gael drwy ap ac ar wefan y darparwr ei hun. Mae hyn yn cynnig ffordd hyblyg a hygyrch o ddysgu sy'n cyd-fynd â'r dull dysgu cyfunol ac yn cefnogi cyflogwyr i drefnu bod eu prentisiaid i ffwrdd o'r gwaith ar amseroedd gwahanol. Mae'n caniatáu i'r cyflogwr allu trefnu i fod yn hyblyg mewn perthynas â phwysau gwaith, gan alluogi i brentisiaid fodloni anghenion y gwaith yn fwy effeithiol. Tynnodd y prentisiaid sylw at y ffaith bod y drefn hon yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i brofiad y dysgwyr sy'n eu hannog yn weithredol i gyflawni.

42 Dywedodd rhai o'r prentisiaid fod gweithio, mynychu dosbarthiadau, ac, ar ben hynny, yr angen i gwblhau tasgau asesu a hunan-astudio, yn rhoi pwysau sylweddol ar eu hamser, ond eu bod yn ystyried bod y manteision a geir o weithio ac ennill arian wrth astudio'n gwrthbwysu'r anfantais hon. Darperir y rhaglenni Prentisiaeth Gradd yn y mwyafrif o achosion ar gylch o 12 mis, ac mae rhywfaint o ddarpariaeth yn ystod yr haf (y tu allan i flwyddyn academiaidd 'arferol'). Rhoddwyd esiamplau o hyblygrwydd yn y dull darparu pan ofynnir am hynny, er enghraifft, newidiwyd y patrwm o ddarparu modiwlau o ddau i dri semester i gefnogi'r prentisiaid i ymdopi â gofynion eu rhaglenni, a rhoddwyd esiamplau o newid amserlen i ateb anghenion y cyflogwr a'r prentis. Yn y maes hwn, gwelwyd **arferion da** yn y ffordd hyblyg y mae dau ddarparwr yn darparu cyfleoedd dysgu ac yn ateb gofynion cyflogwyr unigol.

43 Mae gwahaniaethau rhwng y dulliau addysgu: mewn rhai achosion, addysgir prentisiaid ar y cyd â myfyrwyr sydd ar raglenni gradd traddodiadol, neu addysgir prentisiaid ar wahân mewn achosion eraill. Mewn un achos, lle addysgir prentisiaid ochr yn ochr â myfyrwyr sy'n astudio ar y campws ar gyfer y rhan fwyaf o'r modiwlau, mae pob rhaglen a ddarperir gan y darparwr yn cynnwys elfennau dysgu cysylltiedig â gwaith. Mewn darparwr arall, mae rhai elfennau o addysgu ar y cyd a rhai eraill sy'n benodol i brentisiaid, er bod y darparwr yn bwriadu symud i ffordd oddi wrth y model hwn tuag at addysgu prentisiaid ar wahân yn y dyfodol. Mewn darparwyr eraill, darperir rhai modiwlau i brentisiaid ar raglenni Prentisiaeth Gradd yn unig. Mewn achos arall, mae'r prentisiaid yn cael eu hannog i ymgysylltu â'u cymheiriaid o blith cyrff cyflogwyr eraill mewn gwaith grŵp a thrafodaethau tiwtora fel eu bod yn gallu dod yn gyfarwydd ag ystod eang o brofiadau, cyd-destunau a safbwyntiau pobl eraill - o'r rheiny sy'n newydd i'r diwydiant i'r rheiny sydd â phrofiad sylweddol yn y byd gwaith - er mwyn cynnig profiad dysgu cyfoethog iddyn nhw.

44 Ar draws yr holl ddarpariaeth, defnyddiwyd Cytundeb Dysgwr Prentisiaeth tair ochrog sy'n nodi cyfrifoldebau perthnasol y cyflogwr, y prentis a'r darparwr, ac sydd i gael ei lofnodi gan bob parti, fel sydd wedi ei nodi yng ngofynion CCAUC ar gyfer cyllido Prentisiaethau Gradd. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi ei ategu gan gytundeb dysgu'r darparwr ei hun, oherwydd ni ystyriwyd bod y Cytundeb Dysgwr Prentisiaeth safonol yn ymdrin â'r holl ddyletswyddau - er enghraifft, mewn perthynas â rôl y mentor yn y gweithle a'r oriau o astudio ar y safle - ac mae darparwr arall yn bwriadu gwneud rhywbeth tebyg.

45 Mae'r Datganiad o Nodweddion ac amodau CCAUC ar gyfer cyllido Prentisiaethau Gradd yn nodi'r gofyniad yng Nghymru i brentisiaid gael adolygiad o'u datblygiad bob deufis o leiaf. Ond, mae gweithrediad y gofyniad hwn yn amrywio. Mae un o'r darparwyr yn amserlennu adolygiadau rheolaidd i fonitro cyflawniad, cynnydd a llwyddiant, ac yn cofnodi'r gweithgareddau hyn, ond nid yw rhai darparwyr eraill yn gwneud adolygiadau cynnydd ffurfiol yn gyson, er eu bod yn ymweld â'r prentisiaid yn rheolaidd. Ar gyfer pedwar darparwr, ystyriwyd hyn yn **faes sydd angen ei ddatblygu**.

46 Mae'r darparwyr wedi ymateb yn dda i heriau'r pandemig COVID-19, gan lunio pecynnau cefnogol o drefnau i sicrhau nad yw prentisiaid dan anfantais o ran eu cyflawniad; gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer addysgu, cefnogi ac asesu'r myfyrwyr, a darparu adnoddau ar-lein ychwanegol; ac, mewn un achos, gynnig gweithdy yn benodol i brentisiaid ar ddiwedd y tymor. Ar y cyfan, canfu'r adolygiadau mai bach iawn oedd yr amhariad ar astudiaethau'r prentisiaid. Mewn un achos, nodwyd y ffordd gynhwysfawr y mae'r brifysgol a'r cyflogwr wedi cydweithio i gefnogi astudiaethau'r prentisiaid a sicrhau na thorwyd at eu traws, yn arbennig mewn perthynas â gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith, ac ystyriwyd hyn yn **faes o arfer da**.

47 Mae pob un o'r darparwyr yn cynnig cyfle i'w prentisiaid gael deunyddiau dysgu Cymraeg neu asesiadau cyfrwng Cymraeg, ond, yn y mwyafrif o achosion, ni chymerwyd y cyfle hwn. Roedd rhai cyflogwyr yn cynnig cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae rhai o'r darparwyr yn ystyried bod cyfrifoldeb difrifol ganddynt i annog myfyrwyr i ennill credydau am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, neu maent wedi nodi hynny fel nod strategol, ac maent yn ei hyrwyddo er mwyn paratoi prentisiaid ar gyfer gyrfa ddwyieithog. Mewn dau ddarparwr, gwelwyd **arferion da** yn y ffordd y maent yn hybu ac yn cefnogi'r Gymraeg yn eu darpariaeth prentisiaethau.

Cefnogi cyflawniad y prentis

48 Yn rhan o'r adolygiadau, gwerthuswyd y trefniadau ar gyfer cefnogi prentisiaid ar raglenni Prentisiaeth Gradd drwy gydol eu taith ddysgu - o gofrestru i drosglwyddo i'r gweithle a'r rhaglen i gyflawni'r dyfarniad. Rhoddwyd ystyriaeth i angen y prentisiaid am gymorth gan eu cyflogwyr a'u darparwyr addysg uwch. Mae canfyddiadau'r adroddiadau adolygu o dan y pennawd hwn wedi eu crynhoi isod, ac maent yn ymwneud â'r meysydd a ganlyn: trefniadau ar gyfer ymsefydlu prentisiaid; argaeledd gwasanaethau cymorth myfyrwyr; trefnau i sicrhau amrywiaeth a chynhwysiad; cyfleoedd i brentisiaid symud ymlaen yn eu gyrfaeod; a chefnogaeth i aelodau o staff sy'n addysgu a gweithwyr sy'n mentora.

49 Canfu'r adolygiad fod y prentisiaid yn cael eu hysbysu gan eu cyflogwyr a'u darparwyr am ofynion a heriau'r prentisiaethau, a'u bod yn derbyn gwybodaeth fanwl am eu rhaglenni a'r cymorth dysgu sydd ar gael iddynt, ac o'r herwydd maent yn bodloni gofynion CCAUC ar gyfer cyllido Prentisiaethau Gradd. Mae'r prosesau ymsefydlu'n gynhwysfawr ac yn gweithio'n effeithiol ar draws y darparwyr i gyd, a defnyddir amrywiaeth o ddulliau darparu, sy'n cynnwys tri diwrnod o hyfforddiant dwys cyn cyrraedd, sesiynau briffio manwl i brentisiaid newydd a'u rheolwyr llinell, cyflwyno pob prentis i'w tiwtor ymarfer i ddatblygu cynllun astudio a strwythuro'r gwaith a'r astudiaethau sydd ganddynt ar y gweill, ac ymglyfarwyddo â'r gwasanaethau cymorth myfyrwyr a'r rhith-amgylchedd dysgu.

50 Hefyd, mae'r prentisiaid yn derbyn llawlyfrau rhaglenni a llawlyfrau myfyrwyr fel arfer, er bod angen i ddau o'r darparwyr wahaniaethu'n fwy eglur rhwng anghenion prentisiaid ac anghenion myfyrwyr o gefndiroedd traddodiadol, ac ystyriwyd hyn yn **faes sydd angen ei ddatblygu** mewn un o'r adolygiadau.

51 Mae'r prentisiaid ar draws yr holl ddarpariaeth yn cael tiwtor personol ac yn gallu defnyddio gwasanaethau cymorth myfyrwyr eu darparwr addysg uwch ac adnoddau a chyfleusterau undeb y myfyrwyr. Mae hyn yn bodloni gofynion CCAUC ar gyfer cyllido Prentisiaethau Gradd, er nad oedd y myfyrwyr mewn un darparwr yn ymwybodol o'r ystod lawn o gefnogaeth ychwanegol oedd ar gael iddynt, ac ystyriwyd hyn yn **faes sydd angen ei ddatblygu**.

52 Cefnogir datblygiad gyrfaoel y prentisiaid mewn amrywiol ffyrdd. Mae'r Datganiad o Nodweddion yn nodi y "dylid darparu cyfleoedd datblygiad gyrfaoel parhaus sy'n hyblyg ac yn eglur" ac y "dylid sefydlu llwybrau cynnydd posibl, rhwng y darparwr a chyflogwyr, wrth gymeradwyo rhaglen addysg uwch mewn prentisiaeth". Er bod **meysydd sydd angen eu datblygu** wedi eu hamlygu am nad yw hyn wedi derbyn ystyriaeth amlwg ar y cam cymeradwyo, ac mewn perthynas â phennu a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ateb anghenion penodol y gweithle; mae tystiolaeth i ddangos bod cefnogaeth ar gyfer datblygiad gyrfaoel ar gael ar draws y ddarpariaeth - drwy weithdai, datblygiad sgiliau meddal, adnoddau ar-lein a modiwlau a lunnir yn benodol i gefnogi datblygiad gyrfaoel. Ceir sylwadau cadarnhaol gan gyflogwyr a phrentisiaid sy'n tynnu sylw at y ffaith fod y rhaglen Brentisiaeth Gradd yn helpu i gynyddu opsiynau a rhagolygon gyrfaoel, ac mae'r cyflogwyr yn dangos hefyd bod y rhaglen brentisiaeth yn cefnogi datblygiad naturiol y sefydliad ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddatblygiadau arloesol newydd ym maes technoleg sy'n eu helpu i fod yn gystadleuol.

53 Mae tiwtoriaid modiwl, arweinwyr rhaglen neu staff eraill sydd â swyddogaeth gyswllt yn ymweld â'r gweithleoedd yn aml (ar ffurf rithwir yn ystod y cyfyngiadau COVID-19), gan alluogi cysylltiad rheolaidd rhwng y mentor a'r tiwtor, a rhwng y prentis a'r tiwtor, er nad yw adroddiadau adolygu cynnydd ffurfiol wedi dod yn elfen mor gyffredin (fel y nodwyd uchod). Dywedodd y prentisiaid eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, a bod digon o adnoddau dysgu ar gael iddynt, a chyfleoedd niferus i roi adborth i'r darparwr. Ond, mewn un achos, nid oedd modd i'r adborth a dderbyniodd y darparwr drwy ei broses o adolygu modiwlau gael ei ystyried yng nghyd-destun y rhaglen Brentisiaeth Gradd, a thynnwyd sylw at hyn fel **maes sydd angen ei ddatblygu**.

54 Mae'r darparwyr yn rhoi cefnogaeth i staff y cyflogwr sy'n cymryd rhan yn y gwaith o hyfforddi, mentora ac asesu prentisiaid ar raglenni Prentisiaeth Gradd, er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol. Dyma rai esiamplau o'r ffyrdd y mae'r darparwyr yn rhoi cefnogaeth: cynnig ategol o gyrsiau mentora a hyfforddi a goruchwyliaeth broffesiynol i ehangu sgiliau goruchwylwyr a rheolwyr y prentisiaid ymhellach; a chynhyrchu Canllaw i Fentoriaid a Rheolwyr Llinell mewn Darparwyr, gan ategu'r rhain gydag ymsefydliad ffurfiol, cronfa adnoddau a hyfforddiant i fentoriaid. Mewn un achos - a ystyriwyd yn **faes sydd angen ei ddatblygu** - cydnabuwyd bod y broses fentora'n anghyson, a bod cyflogwyr yn camddeall y broses weithiau; ond, mae'r darparwr wrthi'n datblygu system fentora ddigidol a fydd ar gael i bob mentor i sicrhau eu bod yn deall eu rôl yn well.

55 Mae cyfleoedd datblygiad staff ar gael i aelodau o dimau rhaglen ar draws yr holl ddarparwyr, gan gynnwys lleoliadau gwaith yn y diwydiant. Yn aml iawn, mae staff y darparwyr yn gwneud gwaith ymchwil ac/neu yn gweithio'n agos â'r diwydiant.

56 Mae'n bosibl y nodir bod angen cefnogaeth ar brentisiaid ar y cam ymgeisio neu ar unrhyw adeg wedi hynny a gellir rhoi cynllun cymorth dysgu unigol yn ei le, os oes angen un, yn unol â gofynion CCAUC ar gyfer cyllido Prentisiaethau Gradd. Cafwyd esiamplau o gyflogwyr a darparwyr oedd yn gweithio i sicrhau bod unrhyw rwystrau diangen i ddysgu'n cael eu dileu, gan gynnwys drwy waith allgymorth megis defnyddio prentisiaid i ddarparu gweithgareddau mewn ysgolion yn rhan o'r fenter 'You can't be what you can't see', a thrwy fynd ati'n weithredol i annog rhagor o ferched i gofrestru ar raglenni, yn arbennig mewn meysydd astudio STEM lle maent heb gynrychiolaeth ddigonol. Mewn un o'r darparwyr, mae myfyrwyr blwyddyn derfynol yn cynnal sesiynau cymorth astudio gyda chefnogaeth cymheiriaid i brentisiaid blwyddyn gyntaf i'w helpu i baratoi deunyddiau i'w cyflwyno yn rhan o'u haseiniadau cyntaf. Mae'r arferion asesu'n cefnogi amrywiaeth a chynhwysiad yn y gweithle hefyd, gan weithredu canllawiau perthnasol y brifysgol i sicrhau bod tasgau asesu'n gynhwysol.

57 Mae data am gynnydd myfyrwyr yn cael eu monitro drwy fyrdau asesu a threfnau monitro blynyddol y darparwyr, er mwyn goruchwyllo profiad y myfyrwyr a sicrhau bod ei ansawdd yn dda. Mae hyn yn cynnwys data am foddhad y myfyrwyr, y gwaith o gynllunio a darparu'r cwricwlwm, data am y myfyrwyr sy'n cwblhau ac yn symud ymlaen ac am achosion o ymadael heb gwblhau.

58 Mae'n bwysig diffinio'r rolau allweddol yn eglur er mwyn sicrhau y gweithredir Prentisiaethau Gradd yn llwyddiannus ac y cefnogir y prentisiaid yn ddigonol, ac ystyriwyd nifer o esiamplau yn **nodweddion o arfer da**, gan gynnwys yr esiamplau isod.

- Mae'r tiwtor ymarfer yn hwyluso integreiddio dysgu academaidd a dysgu seiliedig ar waith, ac yn cyflawni swyddogaeth gyswllt academaidd hanfodol rhwng y darparwr, y prentisiaid a'r cyflogwyr. Dywedodd y prentisiaid fod cyfarfodydd gyda thiwtoriaid ymarfer yn fecanwaith cefnogi pwysig sy'n galluogi iddyn nhw gynllunio eu gwaith a'u hamser astudio'n effeithiol, ynghyd â darlithwyr cyswllt sy'n hwyluso dysgu drwy bersonoli addysgu, adborth a chymorth i'r myfyrwyr.
- Mae'r Uned Prentisiaethau Ganolog yn gyfrifol am ddatblygu'r ddarpariaeth prentisiaethau, ac mae'n chwarae rôl hollbwysig o ran cefnogi cyflawniad y prentisiaid. Dyrennir swyddog cyswllt prentisiaid i bob prentis ar raglen Prentisiaeth Gradd. Mae'r Uned Prentisiaethau'n monitro perfformiad ac ymgysylltiad pob prentis yn agos drwy'r cynlluniau dysgu. Mae'r swyddogion cyswllt prentisiaid yn cadw cofnodion o'r holl gyfarfodydd cynnydd ac mae'r rhain yn rhan o'r sylwadau a nodir am daith ddysgu'r prentis drwy'r rhaglen, sy'n cynnwys cyfeirio'r prentisiaid at wasanaethau cymorth, megis gwasanaethau myfyrwyr, fel y bo'n briodol.
- Mae swyddogaethau cyflenwol yr Arweinydd Prentisiaethau Gradd a'r Tiwtor Personol yn cryfhau'r cysylltiad tair ochrog rhwng y prentis, y cyflogwr a'r darparwr, ac maent yn cynnig pwyntiau cyswllt effeithiol i'r darparwr wrth gefnogi cyflawniad y prentisiaid.

59 Lle darperir y dysgu gan goleg partner, rheolir y cydweithrediad yn ffurfiol drwy gytundebau partneriaeth a threfniadau sicrhau ansawdd, ac ystyriwyd bod partneriaethau o'r fath yn hynod o werthfawr i'r rhaglenni am eu bod yn cynnig profiad ychwanegol gan y partner o ddysgu seiliedig ar waith ac yn ehangu mynediad i brentisiaethau drwy ddarparu'r dysgu'n lleol. Mae'n fuddiol cynnal cyfarfodydd rhwng y partner a'r darparwr arweiniol lle trafodir unrhyw broblemau a llwyddiannau, er mwyn cefnogi'r prentisiaid. Gall prentisiaid ddefnyddio'r gwasanaethau cymorth myfyrwyr y mae'r partner a'r darparwr arweiniol yn eu cynnig, ac er bod rhai prentisiaid yn teimlo bod y ddau'n rhoi cefnogaeth dda iddynt, nid oedd rhai o'r prentisiaid mewn un o'r colegau partner wedi eu hintegreiddio'n llawn i systemau a phrosesau cefnogi'r brifysgol bartner, ac ystyriwyd hyn yn **faes sydd angen ei ddatblygu**. Teimlwyd bod mynediad i undeb myfyrwyr y darparwr arweiniol yn bwysig am ei fod yn rhoi cymorth y tu hwnt i hwnnw sydd ar gael yn y coleg partner, yn arbennig am ei fod yn darparu'r system cynrychiolaeth myfyrwyr ar gyfer cyrsiau.

Asesu

60 Yn rhan o'r adolygiadau, gwerthuswyd y strategaethau asesu mewn perthynas â natur pob elfen o raglen ddysgu'r brentisiaeth. Ar gyfer rhaglenni Prentisiaeth Gradd, bydd angen amrywiaeth o ddulliau asesu, a gallai hyn gynnwys amrywiaeth o ddulliau ffurfiol ac anffurfiol, a ffurfiannol a chrynodol. Gallai cyflogwr gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio'r broses, a/neu gytuno ar ei manylion, ar gyfer asesu a chadarnhau cyflawniad a chymhwysedd proffesiynol y prentis. Mae canfyddiadau'r adroddiadau adolygu o dan y pennawd hwn wedi eu crynhoi isod, ac maent yn ymwneud â'r meysydd a ganlyn: trefniadau ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol; cynllun y strategaeth asesu; y defnydd a wneir o brofiadau gwaith go iawn mewn asesiadau; datblygiad a hyfforddiant i'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y broses asesu; a threfnau i gofnodi cynnydd a chyflawniad.

61 Canfu'r adolygiad bod profiad a dysgu blaenorol y prentisiaid yn cael eu cydnabod lle bo'n briodol, sy'n cyfateb â gofynion CCAUC ar gyfer cyllido Prentisiaethau Gradd. Ar draws yr holl ddarparwyr, mae prosesau ar waith ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol i alluogi i brentisiaid gael lle neu safle uwch, ac mae esiamplau i dangos bod y prosesau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol, gan gynnwys y cyfle mewn un o'r darparwyr i'r rheiny o'i fyfyrwyr sydd wedi cwblhau Lefel 4 ei raglenni gradd sylfaen drosglwyddo gyda safle uwch i lwybr Prentisiaeth Gradd a ariennir.

62 Mae rhaglenni Prentisiaeth Gradd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu, megis arholiadau ysgrifenedig ffurfiol, gwaith cwrs, astudiaethau achos a phrosiectau, gydag elfennau penodol sy'n cynnwys dysgu seiliedig ar waith. Ar y cam cymeradwyo rhaglenni, mae'r darparwyr yn gwneud gwaith mapio manwl mewn perthynas â chanlyniadau dysgu ac asesiadau. Mae gwybodaeth gynhwysfawr am asesiadau ar gael i'r prentisiaid ym mriffiau asesu a disgrifwyr y modiwlau, sy'n amlinellu'r amcanion dysgu sy'n cael eu hasesu, y meini prawf asesu a'r gofynion o ran cyflwyno gwaith - er nad yw'n eglur bob amser, mewn perthynas ag un o'r darparwyr, sut y gellir rhoi'r asesiadau hyn yng nghyd-destun y gweithle. Yn y mwyafrif llethol o achosion, dywedodd y prentisiaid eu bod yn derbyn adborth amserol a defnyddiol.

63 Mae'r darparwyr yn gweithio gyda'r cyflogwyr i sicrhau bod prosiectau seiliedig ar waith ar gael i'r prentisiaid sy'n addas ac sy'n cyfateb â'r canlyniadau dysgu. Mewn sefyllfaoedd lle'r oedd hi'n anodd dyrannu tasgau i ddysgwyr - am nad oedd rhai o ofynion y rhaglen yn cael eu cyflawni o fewn rolau eu swyddi - rhoddwyd senarios dysgwyr iddyn nhw, yn ogystal â chyfleoedd mewn gweithleoedd eraill, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau gofynnol i gyd. Mewn achos arall, mae'n hysbys bod sefydliadau eraill yn cysylltu â'r darparwr gyda phrosiectau i'w cyflawni gan brentisiaid a myfyrwyr.

64 Fel arfer, mae'r darparwyr yn ymgysylltu â'r cyflogwyr i gytuno ar asesiadau er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio profiadau gwaith go iawn ac yn hybu datblygiadau arloesol a thyfiant

ym musnes y cyflogwr. Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr yn rhoi asesiadau yn eu cyd-destun er mwyn galluogi i'r prentisiaid sy'n dysgu ar Brentisiaethau Gradd ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei ddysgu'n llawn yn eu gwaith ymarferol. Ond, mewn dau achos, mae angen gwneud rhagor o waith o hyd i gysylltu asesiadau'n agosach â'r gweithle, ac ystyriwyd y rhain yn **feysydd sydd angen eu datblygu**. Er bod y Datganiad o Nodweddion yn nodi y gallai'r cyflogwyr gyfranogi mewn rhai agweddau o asesiadau crynodol, ni chanfu'r adolygiadau unrhyw esiamplau o hyn; ond, gwelwyd esiamplau o gyfranogaeth gan gyflogwyr mewn asesiadau ffurfiannol, gan gynnwys un achos a ystyriwyd yn **nodwedd o arfer da**. Defnyddir asesiadau ffurfiannol yn eang i roi gwybod i'r prentisiaid, eu cyflogwyr a'r staff addysgu am feysydd o gryfder ac ymhle y mae angen gwella.

65 Mewn dau ddarparwr, ystyriwyd bod y ffordd y rhennir adroddiadau arholwyr allanol gyda'r cyflogwyr yn **faes sydd angen ei ddatblygu**, er mwyn sicrhau bod y cyflogwyr yn cael gwybod am yr adroddiadau, a'r ffordd y mae'r darparwr yn ymdrin â nhw.

Argymhellion ar gyfer y dyfodol

66 Er bod yr adolygiadau wedi canfod esiamplau niferus o arfer da ymhob un o'r meysydd allweddol i gefnogi nodweddion Prentisiaethau Gradd, roedd nifer o feysydd sydd angen eu datblygu'n digwydd dro ar ôl tro mewn nifer o'r adolygiadau. Gellir crynhoi'r meysydd hyn mewn pedwar argymhelliad trosfwaol, fel a ganlyn:

- Dylid rhoi cydnabyddiaeth lawn i natur arbennig Prentisiaethau Gradd drwy wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael eu mapio yn erbyn y Datganiad o Nodweddion yn ystod y prosesau o gynllunio a datblygu rhaglenni.
- Dylai prentisiaid dderbyn deunyddiau cefnogaeth ac arweiniad sydd wedi eu teilwra i natur arbennig y ddarpariaeth a'r dull o'i darparu.
- Dylai'r darparwr sicrhau eu bod yn gweithredu adolygiadau cynnydd ffurfiol bob deufis o leiaf, fel sy'n ofynnol gan y Datganiad o Nodweddion.
- Er mwyn gwella'r ddarpariaeth, dylai darparwyr roi mwy o gyfleoedd i gyflogwyr gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a datblygu rhaglenni, ac arwain y gwaith asesu.

Cyfeiriadau

Yr Undeb Ewropeaidd (2018): Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Phrentisiaethau Effeithiol Ewrop

CCAUC (2020): Y Fframwaith Asesu Ansawdd

CCAUC (2020): W20/05HE: Prentisiaethau Gradd yng Nghymru a Chynigion Cyllido 2020/21

Instructus (2019): Fframwaith Prentisiaeth: Prentisiaeth Gradd mewn Sgiliau Digidol (Cymru)

QAA (2020): [Adolygiad o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru](#)

QAA (2019): [Datganiad o Nodweddion ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau](#)

SEMTA (2020): Fframwaith Prentisiaeth: Prentisiaeth Gradd mewn Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch (Cymru)

UKSCQA/QAA (2018): Y fersiwn ddiwygiedig o God Ansawdd Addysg Uwch y DU

Atodiad 1 – Darparwyr arweiniol a phartneriaid

Tabl o'r adolygiadau a wnaethpwyd ar y cyd â cholegau partner

Y darparwr arweiniol	Colegau sy'n gysylltiedig â'r darparwr hwn
Prifysgol Bangor	Grŵp Llandrillo Menai
Prifysgol Caerdydd	
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	
Prifysgol Abertawe	Coleg Cambria Coleg Gŵyr Abertawe
Prifysgol De Cymru	
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	Coleg Sir Gâr
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	Coleg Castell-Nedd Port Talbot

Atodiad 2 – Trywyddau rhaglen

Y darparwr	Fframwaith Prentisiaeth Gradd	Trywydd rhaglen
Prifysgol Bangor	Digidol Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch	<ul style="list-style-type: none"> • BSc (Anrh) mewn Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol • BEng (Anrh) mewn Systemau Peirianeg Fecanyddol Gymhwysol
Prifysgol Caerdydd	Digidol	<ul style="list-style-type: none"> • BSc (Anrh) mewn Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Digidol	<ul style="list-style-type: none"> • BSc (Anrh) mewn Gwyddor Data Gymhwysol
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	Digidol	<ul style="list-style-type: none"> • BSc (Anrh) mewn Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol
Prifysgol Abertawe	Digidol Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch	<ul style="list-style-type: none"> • BSc (Anrh) mewn Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol • BEng (Anrh) mewn Peirianeg Awyrennol a Gweithgynhyrchu • BEng (Anrh) mewn Peirianeg Gweithgynhyrchu Uwch
Prifysgol De Cymru	Digidol Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch	<ul style="list-style-type: none"> • BSc (Anrh) mewn Technolegau Lled-ddargludyddion • BEng (Anrh) mewn Peirianeg Drydanol ac Electronig • BSc (Anrh) mewn Peirianeg Drydanol ac Electronig
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	Digidol Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch	<ul style="list-style-type: none"> • BSc (Anrh) mewn Cyfrifiadura (Rhwydweithiau Cyfrifiadurol a Seiberddiogelwch) • BSc (Anrh) mewn Peirianeg Fecanyddol a Gweithgynhyrchu
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	Digidol Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch	<ul style="list-style-type: none"> • BSc (Anrh) mewn Cyfrifiadura • BEng (Anrh) mewn Dylunio Peirianeg Ddiwydiannol (Mecanyddol)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dyddiad cyhoeddi – 5 Hydref 2021

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2021
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk